

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

The Skin Girl, Llaneirwg

Dyddiad arolygu: 16 Rhagfyr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 18 Mawrth 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn The Skin Girl ar 16 Rhagfyr 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu gofal diogel, parchus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd yr adborth gan gleifion yn gyson gadarnhaol, gydag unigolion yn datgan eu bod yn fodlon iawn ar ansawdd y gofal a phroffesiynoldeb y staff.

Roedd yr amgylchedd yn groesawgar ac yn gynhwysol a dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn cynnal eu hurddas ac yn parchu eu hanghenion unigol. Roedd preifatrwydd yn cael ei gynnal yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau, ac roedd cyfleusterau priodol ar gael i gefnogi cysur a chyfrinachedd y cleifion.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth lawn am fanteision a risgiau triniaethau, a rhoddwyd esboniadau llafar a deunyddiau ysgrifenedig. Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth yn cael ei ddogfennu'n glir, ac roedd gwiriadau cyn triniaeth perthnasol yn cael eu cynnal fel mater o drefn.

Roedd gan y clinig systemau cyfathrebu clir, gan gynnig gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch a darparu dewisiadau cysylltu hyblyg, gan gynnwys ar gyfer y rhai heb fynediad digidol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Nid oedd y gofrestr triniaethau yn cynnwys enw a llofnod y gweithredwr, manylion y cyfarpar na'r man penodol a gafodd ei drin
- Nid oedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ar adeg yr arolygiad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch
- Dulliau cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar gleifion a chydsyniad cleifion
- Prosesau rhagweithiol i ymgysylltu â chleifion a cheisio'u hadborth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan ac roedd mesurau diogelwch priodol ar waith. Roedd yr ystafell ar gyfer triniaethau laser yn drefnus, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn cefnogi gweithdrefnau atal heintiau.

Roedd trefniadau iechyd a diogelwch ar waith. Roedd y gwifrau trydanol wedi cael eu harchwilio o fewn pum mlynedd, ac roedd y Profion Offer Cludadwy (PAT) yn gyfredol. Roedd y mesurau diogelwch tân yn foddhaol, gan gynnwys allanfeydd clir, diffoddwyr a oedd wedi cael eu gwasanaethu, a phrofion rheolaidd ar gyfarpar synhwyro. Cadarnhawyd bod asesiad risg tân ysgrifenedig ar gael a bod hyfforddiant wedi'i gwblhau, ond roedd tystiolaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf ar goll.

Roedd asesiadau risg ar gyfer peiriannau Goleuni Pwls Dwys wedi cael eu cwblhau gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau. Roedd gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn gadarn, gyda gwaith glanhau rheolaidd a chontract i gael gwared ar wastraff clinigol yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd y bin gwastraff clinigol allanol wedi'i osod yn sOWNd i bwynt sefydlog.

Roedd polisïau diogelu ar gyfer oedolion ar waith ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ond nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi darparu tystiolaeth o hyfforddiant diogelu cyfredol. Nid oedd plant yn cael dod i mewn i'r safle.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hyfforddiant diogelu
- Hyfforddiant cymorth cyntaf
- Diogelwch y bin gwastraff clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Yr amgylchedd a rheoli heintiau
- Defnydd diogel o gyfarpar Goleuni Pwls Dwys.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y rheolwr cofrestredig oedd yn berchen ar y clinig ac yn ei reoli ac roedd yn gyfrifol am bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys safonau clinigol, staffio, cadw cofnodion a chydymffurfiaeth. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith, yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol ond roedd yn gwneud ymdrech benodol i gasglu adborth gan gleifion drwy ei system trefnu apwyntiadau. Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael, ac roedd crynodebau wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Fodd bynnag, nid oedd y crynodebau hyn yn nodi'r amserlenni ar gyfer cydnabod cwynion ac ymateb iddynt.

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefnau clir ar gyfer rheoli digwyddiadau o bwys ac roedd yn dilyn y protocolau hysbysu gofynnol. Roedd gan y rheolwr cofrestredig

wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth a hyfforddiant ar gyfarpar penodol. Darparwyd tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus hefyd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gweithdrefn gwyno anghyflawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd clir
- Ymrwymiad i hyfforddiant a datblygiad penodol i laser.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cawsom gyfanswm o 11 o ymatebion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Staff gwych”

Diogelu a gwella iechyd

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y clinig yn ymgymryd â rôl weithredol wrth hybu iechyd yn ystod ymgynghoriadau a sesiynau trin. Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio rhyngweithiadau â chleifion fel cyfleoedd i gyfeirio unigolion at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwasanaethau gofal iechyd perthnasol, fel ymarferwyr cyffredinol neu ddermatolegwyr pan oedd anghenion iechyd ehangach yn cael eu nodi.

Urddas a pharch

Roedd y clinig ar gau i gleifion ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd pob un o'r unigolion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno'n gryf eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff, a bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod apwyntiadau.

Dywedwyd wrthym fod yr aelodau o'r staff yn cyfarch cleifion wrth y drws ffrynt yn rheolaidd ac yn eu hebrwng i'r ardal aros. Nododd y rheolwr cofrestredig fod ymgynghoriadau'n cael eu cynnal yn yr ystafell drin i sicrhau cyfrinachedd. Mae'r ardal aros wedi'i lleoli i ffwrdd o'r ystafell drin, gan ddarparu amgylchedd addas ar gyfer sgysiau cyfrinachol a thrafodaethau clinigol heb i bobl eu clywed ar ddamwain.

Roedd yr ystafell ar gyfer triniaethau laser wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod a gwnaethom nodi ei bod yn lân, mewn cyflwr da, heb unrhyw annibendod. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai cleifion newid yn yr ystafell drin y gellir ei chloi ac y byddai'r aelodau o'r staff yn gadael yr ystafell er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y claf. Roedd gynau ar gael i'r cleifion eu defnyddio yn ystod triniaethau.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Disgrifiodd y staff ddull cynhwysfawr o gynnal ymgynghoriadau cleifion, lle roedd unigolion yn cael esboniadau ar lafar a gwybodaeth wedi'i hargraffu am y triniaethau sydd ar gael. Roedd y wybodaeth hon yn cwmpasu manteision bwriadedig triniaeth, yn ogystal â'r risgiau posibl ac unrhyw gyfyngiadau.

Roedd y cydsyniad ar gyfer triniaeth wedi'i ddogfennu ar bapur neu yn system cofnodion cleifion electronig y gwasanaeth. Roedd y copïau papur o'r ffurflenni cydsynio'n cael eu storio'n ddiogel ochr yn ochr â chofnodion cleifion unigol ac roedd y system ddigidol yn cael ei diogelu â chyfrinair er mwyn sicrhau cyfrinachedd a chydymffurfiaeth â gofynion diogelu data.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod prawf croen wedi cael ei gynnal cyn y driniaeth, os oedd yn briodol, a bod eu hanes meddygol wedi cael ei adolygu. Cadarnhaodd y staff fod gwiriadau hanes meddygol yn rhan safonol o'r broses ymgynghori a'u bod yn cael eu hailadrodd cyn dechrau unrhyw gwrs o driniaethau neu sesiwn newydd.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ynghylch cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y clinig wefan a oedd yn darparu gwybodaeth am ei wasanaethau a manylion cyswllt. Roedd copi wedi'i argraffu o'r datganiad o ddiben ar gael i gleifion ar gais. Roedd canllaw i gleifion ar gael yn yr ystafell aros.

Roedd y wybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch. Gellid gofyn am fersiwn print bras a hawdd ei deall. Gallai'r cleifion gysylltu â'r gwasanaeth dros y ffôn, drwy neges destun neu drwy'r wefan. I gleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol, roedd trefniadau ar waith i drefnu apwyntiadau a chyfleu gwybodaeth dros y ffôn.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar ddarparu gwybodaeth i gleifion ar gael ac roedd wedi cael ei adolygu ym mis Medi 2025.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod cleifion yn cael cynnig ymgynghoriadau cychwynnol am ddim, lle roedd y staff yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i gefnogi penderfyniadau a wnaed ar sail gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys manylion am opsiynau triniaeth, beth fyddai'r driniaeth yn ei olygu ac unrhyw ofal angenrheidiol ar ôl y driniaeth. Roedd y clinig yn rhoi pwyslais hefyd ar sicrhau bod cleifion yn gwbl ymwybodol o gostau triniaethau a'r gwasanaethau ar adeg trefnu apwyntiad neu ymgynghoriad, gan gynnwys yr opsiynau talu sydd ar gael.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael ymgynghoriad llawn cyn cytuno i unrhyw driniaeth. Roedd hyn yn cynnwys manylion y risgiau a'r manteision. Roedd copïau o wybodaeth am driniaethau, gan gynnwys canllawiau ôl-ofal, yn cael eu rhoi i bob claf. Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu triniaeth.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf, a chadarnhawyd bod cleifion yn cael prawf croen lle y bo'n briodol cyn dechrau cwrs o driniaeth. Roedd hyn yn helpu i bennu tebygolrwydd unrhyw adweithiau niweidiol.

Roedd y clinig yn cynnal cofrestr triniaethau gyfunol ar gyfer pob uned laser, a oedd yn cynnwys gwybodaeth hanfodol fel dynodyddion y claf, y dyddiad a'r math o driniaeth, paramedrau'r driniaeth a sylwadau'r ymarferydd. Er bod presenoldeb y gofrestr hon yn darparu trosolwg defnyddiol o weithgareddau laser ac yn cefnogi'r gallu i olrhain, roedd bylchau nodedig yn y wybodaeth a gofnodwyd. Nid oedd enw a llofnod y gweithredwr laser wedi'u cynnwys. Yn yr un modd, nid oedd y gofrestr yn cynnwys enw na'r math o gyfarpar a ddefnyddiwyd, ond roedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar wahân yn y system cofnodion clinigol.

Gwnaethom hefyd arsylwi nad oedd y gofrestr triniaethau'n nodi'n gyson pa ran anatomegol gafodd ei thrin. Yn hytrach, roedd y gofrestr yn cyfeirio at becynnau o fannau trin wedi'u diffinio'n lleol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau i wella cyflawnrwydd a chywirdeb y gofrestr triniaethau yn unol â Safonau Hanfodol Cymdeithas Laser Meddygol Prydain.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cawsom sicrwydd bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio, a bod pob aelod o staff a chlaf yn cael ei drin yn deg. Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, nid oedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth na hyfforddiant ar gael ar adeg yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a'i roi ar waith.

Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth

Roedd y clinig yn ceisio adborth gan y cleifion am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaed hyn drwy gais awtomatig ar y rhaglen trefnu apwyntiadau a dywedodd y staff eu bod yn gofyn i'r cleifion am adborth ar lafar ar ôl triniaethau yn rheolaidd.

Yn ystod yr arolygiad, edrychodd yr arolygwyr ar yr adborth a oedd ar gael drwy'r rhaglen trefnu apwyntiadau a chanfuwyd bod yr holl sylwadau yn gadarnhaol, gan adlewyrchu lefelau uchel o foddhad â'r gofal a ddarperir. Roedd y sylwadau'n cynnwys canmoliaeth ar gyfer proffesiynoldeb y staff, cyfathrebu clir a phrofiad cyffredinol y claf. Sicrhodd y clinig fod cleifion eraill a oedd yn defnyddio'r system trefnu apwyntiadau yn gallu gweld yr adborth hwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl yr olwg, y tu mewn a'r tu allan. Roedd mesurau diogelwch addas ar waith i atal mynediad anawdurdodedig. Roedd y clinig yn cynnwys ystafell aros ac ystafelloedd trin ar wahân ar gyfer triniaethau laser a gwasanaethau eraill. Roedd yr ystafell ar gyfer triniaethau laser yn edrych yn drefnus ac roedd cyfarpar priodol ynddi. Nododd yr arolygwyr fod yr ystafell yn cefnogi mesurau atal heintiau a bod cyfarpar yn cael ei storio'n ddiogel.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y clinig er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd y dystiolaeth yn cadarnhau bod y gwifrau trydanol wedi cael eu harchwilio yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Yn ogystal, cynhaliwyd Profion Offer Cludadwy yn ddiweddar, ac roedd sticeri i'w gweld ar yr holl offer trydanol perthnasol, gan ddangos bod y cyfarpar a ddefnyddir i ofalu am gleifion wedi'i brofi ac ystyrir ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau diogelwch tân yn y clinig. Gwelsom fod yr allanfeydd tân yn glir a bod arwyddion ar eu cyfer a bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Dywedwyd wrthym fod profion cyfarpar canfod tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cael eu cofnodi. Yn ogystal, darparodd y rheolwr cofrestredig asesiad risg tân ysgrifenedig ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân cyfredol.

Roedd arwyddion 'dim smygu' wedi'u harddangos yn glir wrth bob mynedfa i'r adeilad. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn argyfwng. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael a gwelsom fod yr holl eitemau yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi darparu tystiolaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ddatrys y mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad drwy drefnu lle i bob aelod o staff ar yr hyfforddiant gofynnol. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwelsom fod asesiadau risg addas ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser wedi'u cynnal gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Darparodd y clinig bolisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr i'r arolygwyr, a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal safonau hylendid a lleihau'r risg o drosglwyddo haint. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig adroddiad clir o arferion

glanhau clinigol y clinig, a oedd yn cynnwys trefniadau rheolaidd i lanhau'r arwynebau a ddefnyddir yn aml.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol. Roedd contract addas ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn bin wedi'i gloi y tu allan i'r safle. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y bin gwastraff clinigol allanol wedi'i osod yn sOWNd i bwynt sefydlog yn yr ardal casglu gwastraff ddynodedig.

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod y bin gwastraff clinigol yn cael ei osod yn sOWNd i bwynt sefydlog yn yr ardal casglu gwastraff ddynodedig.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y clinig wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y cydymffurfiwyd â hyn. Dywedwyd wrthym nad oedd plant yn cael dod i mewn i'r safle.

Gwnaethom edrych ar bolisi diogelu'r clinig, a nodwyd ei fod ar waith ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Roedd y polisi hwn yn amlinellu cyfrifoldebau allweddol a gweithdrefnau adrodd pe bai unrhyw bryderon diogelu a oedd yn ymwneud ag oedolion a oedd yn wynebu risg. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael hefyd.

Er bod polisiau ar waith, nid oedd y rheolwr cofrestredig yn gallu darparu tystiolaeth bod hyfforddiant diogelu cyfredol wedi'i gwblhau ar adeg yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu priodol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom gadarnhau bod y peiriannau laser a ddefnyddir yn cyfateb i'r manylion a ddarparwyd yng nghofrestriad y gwasanaeth gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac roedd pob dyfais i weld mewn cyflwr da, heb unrhyw arwyddion amlwg o ddifrod na diffygion.

Roedd gan y clinig gontract cyfredol gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ardystiedig, ac edrychodd yr arolygwyr ar y rheolau lleol cysylltiedig ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar laser yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol hyn wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roeddent ar gael i'r staff. Yn ogystal, roedd protocolau trin meddygol cyfredol ar gael, a oedd wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol â chymwysterau addas.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar diogelu personol priodol ar waith, a oedd yn cynnwys sbectolau addas i gleifion a gweithredwyr. Roedd y cyfarpar hwn yn cael ei storio'n ddiogel a dywedwyd ei fod yn destun gwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau gweithrediad a glendid.

Roedd pob gweithredwr awdurdodedig wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddefnyddio'r unedau laser penodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyffredinol.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i nodi presenoldeb y peiriannau laser a chlo i atal mynediad heb awdurdod pan oedd peiriant yn cael ei ddefnyddio. Gwelsom fod trefniadau addas i sicrhau bod y peiriannau yn ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dangosodd y rheolwr cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth dda mewn perthynas â'r triniaethau a ddarperir. Disgrifiodd bwysigrwydd arsylwadau ar ôl y driniaeth ac apwyntiadau dilynol â'r cleifion er mwyn helpu i ddarparu gofal gwell wedi'i deilwra at yr unigolyn drwy gydol cwrs o driniaeth.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud ymdrech benodol i annog adborth gan gleifion drwy sianeli llafar a digidol a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Roedd yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd adeiladol i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a chynnal lefelau boddhad uchel y cleifion.

Rheoli cofnodion

Roedd cyfuniad o gofnodion papur ac electronig yn cael eu defnyddio. Roedd y cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd y gellid ei gloi a'r cofnodion electronig yn cael eu cadw mewn system cofnodion clinigol a ddiogelir â chyfrinair. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig brosesau a chyfnodau cadw priodol ar gyfer rheoli cofnodion a'u gwaredu.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pum claf yn ystod yr arolygiad. Roedd pob cofnod yn dangos safon uchel o ddogfennaeth, gan adlewyrchu cofnodion unigoledig a gynhelir yn effeithiol a oedd yn cefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nodwyd bod yr holl gofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac yn fanwl.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig oedd yn berchen ar The Skin Girl ac yn ei reoli.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn gyfrifol am bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys goruchwyllo safonau clinigol, staffio, cadw cofnodion a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

Roedd tystysgrif cofrestru'r clinig ag AGIC ac amodau cysylltiedig y cofrestriad wedi'u harddangos ar y safle. Roedd gan y clinig yswiriant priodol hefyd, ac roedd tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar gael i'w harchwilio.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn ymdrin â meysydd gweithredol a chlinigol allweddol. Gwelwyd bod y dogfennau hyn yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Ymateb i bryderon a rheoli digwyddiadau

Ar adeg yr arolygiad, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law. Fodd bynnag, roedd y clinig yn gwneud ymdrech benodol i geisio adborth gan gleifion drwy'r system trefnu apwyntiadau ar-lein, ac roedd yr adborth hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn monitro boddhad ac i ymdrin ag unrhyw bryderon a oedd yn dod i'r amlwg yn anffurfiol.

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith, ac roedd crynodeb o'r broses hon ar gael yn natganiad o ddiben y clinig a'r canllaw i gleifion. Roedd y dogfennau hyn yn nodi'r person cyfrifol ar gyfer ymdrin â chwynion ac yn rhoi manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i gleifion pe byddent yn dymuno uwchgyfeirio pryder yn allanol. Fodd bynnag, nid oedd y crynodeb hwn yn cynnwys amserlenni penodol ar gyfer cydnabod cwynion a mynd i'r afael â nhw.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r weithdrefn gwyno, a'r crynodebau yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion er mwyn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cydnabod cwynion a mynd i'r afael â nhw.

Mewn perthynas â digwyddiadau a digwyddiadau andwyol, roedd gweithdrefn ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer nodi digwyddiadau o bwys, adrodd arnynt a'u rheoli. Roedd hyn yn cynnwys y gofynion hysbysu angenrheidiol.

Recriwtio, cynllunio a hyfforddi'r gweithlu

Ar adeg yr arolygiad, rhoddodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi

cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth perthnasol, yn ogystal â hyfforddiant penodol ar y peiriannau laser a ddefnyddir yn y lleoliad. Yn ogystal, roedd y rheolwr cofrestredig yn ymgysylltu'n weithredol â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach i gynnal a diweddarau ei sgiliau a'i gwybodaeth. Dangoswyd tystiolaeth o'r dysgu parhaus hwn i ni.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi darparu tystiolaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf.	Roedd risg bosibl i gleifion ac ymwelwyr pe byddai argyfwng neu ddamwain	Gwnaethom godi hyn gyda'r rheolwr cofrestredig ar unwaith.	Trefnodd le ar gwrs hyfforddiant cymorth cyntaf yn ystod yr arolygiad a darparwyd tystiolaeth o hyn.
Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi darparu tystiolaeth o hyfforddiant atal a rheoli heintiau.	Roedd cleifion ac ymwelwyr yn wynebu risg bosibl o groesheintio rhwng cleifion a staff.	Gwnaethom godi hyn gyda'r rheolwr cofrestredig ar unwaith.	Trefnodd le ar gwrs atal a rheoli heintiau yn ystod yr arolygiad a darparwyd tystiolaeth o hyn.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: The Skin Girl

Dyddiad yr arolygiad: 16 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: The Skin Girl

Dyddiad yr arolygiad: 16 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Er bod presenoldeb y gofrestr triniaethau yn darparu trosolwg defnyddiol o weithgareddau laser ac yn cefnogi'r gallu i olrhain, roedd bylchau nodedig yn y wybodaeth a gofnodwyd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau i wella cyflawnrwydd a chywirdeb y gofrestr triniaethau yn unol â Safonau Hanfodol Cymdeithas Laser Meddygol Prydain.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23, Rheoliad 45.	Ychwanegu rhagor o feini prawf perthnasol y gofynnwyd amdanynt	RC	Rhoddwyd hyn ar waith ar y diwrnod gwaith nesaf yn dilyn yr ymweliad. Wedi'i gwblhau
2. Nid oedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael ar adeg yr arolygiad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a'i roi ar waith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 18.	Polisi wedi'i gwblhau a'i ffeilio ar y cyd â'r holl waith papur arall	RC	Wedi'i gwblhau

3.	Nodwyd nad oedd y bin gwastraff clinigol allanol wedi'i osod yn sownd i bwynt sefydlog yn yr ardal casglu gwastraff ddynodedig.	Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod y bin gwastraff clinigol yn cael ei osod yn sownd i bwynt sefydlog yn yr ardal casglu gwastraff ddynodedig.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19.	Mae'r bin bellach yn sownd yn y rheiliau â chadwyn fetel a chlo clap. Dosbarthwyd y bin allanol hwn i ni ers newid i gontractwr newydd yn ddiweddar.	RC	Wedi'i gwblhau
4.	Ni allai'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth bod hyfforddiant diogelu cyfredol wedi'i gwblhau ar adeg yr arolygiad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu priodol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19, Rheoliad 20, Rheoliad 21.	Roedd hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau cyn i RC gwblhau'r weithdrefn polisi. Rhoddwyd hyn i AGIC yn ystod y cais - ond cwrs am ddim oedd hwn felly bydd rhaid cwblhau cwrs newydd er mwyn cael tystysgrif.	RC	28 Chwefror 26
5.	Nid oedd y weithdrefn gwyno a'r crynodebau yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cynnwys amserlenni penodol ar gyfer cydnabod cwynion a mynd i'r afael â nhw.	Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r weithdrefn gwyno, a'r crynodebau yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion er mwyn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cydnabod cwynion a mynd i'r afael â nhw.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 24.	Ychwanegwyd amserlen o 3 wythnos at y Canllaw i Gleifion a'r Datganiad o Ddiben	RC	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rachael Corrigan

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 6/2/26